CYNGOR SIR

Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd yn via VIDEO CONFERENCE, Dydd Mawrth, 13 Ebrill 2021 am 10.00 am.

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Joan Butterfield, Ellie Chard, Ann Davies, Meirick Davies (Cadeirydd), Hugh Evans, Bobby Feeley, Rachel Flynn, Tony Flynn, Huw Hilditch-Roberts, Martyn Holland, Alan Hughes, Hugh Irving, Alan James (Is-Gadeirydd), Brian Jones, Tina Jones, Richard Mainon, Christine Marston, Barry Mellor, Melvyn Mile, Bob Murray, Merfyn Parry, Paul Penlington, Pete Prendergast, Arwel Roberts, Anton Sampson, Peter Scott, Glenn Swingler, Andrew Thomas, Rhys Thomas, Tony Thomas, Julian Thompson-Hill, Graham Timms, Joe Welch, Cheryl Williams, Eryl Williams, Huw Williams, Emrys Wynne a/ac Mark Young

HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau (NS), Cyfarwyddwr Corfforaethol: Economi a'r Parth Cyhoeddus (GB), Pennaeth y Gyfraith, AD a'r Gwasanaethau Democrataidd (GW), Pennaeth Cyllid ac Eiddo (SG), Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd (SP), Gweinyddwr Zoom a'r Gweddarllediad (SJ), Gweinyddwr Pwyllgor (SLW)

1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Mabon ap Gwynfor, Brian Blakeley, Jeanette Chamberlain-Jones, Gareth Davies, Peter Arnold Evans, Gwyneth Kensler, Geraint Lloyd-Williams a/ac David Williams

2 DATGAN CYSYLLTIAD

Dim.

3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Nid oedd unrhyw fater brys.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Alan Hughes i'w gyfarfod cyntaf o'r Cyngor Sir. Y Cynghorydd Hughes a enillodd yr etholiad am sedd wag y diweddar Gynghorydd Huw Jones.

Rhoes y Cadeirydd ddatganiad fel a ganlyn –

"â thristwch mawr y clywom ddydd Gwener diwethaf, 9 Ebrill, fod Ei Uchelder Brenhinol, y Tywysog Philip, Dug Caeredin, wedi marw. Fel Cyngor Sir mynegwn ein cydymdeimlad diffuant â'r Mawrhydi'r Frenhines a'r Teulu Brenhinol. Byddaf hefyd yn anfon llythyr o gydymdeimlad at Ysgrifennydd Preifat y Dug.

Mae'r baneri wedi'u hanner-gostwng yn Neuadd y Sir, Rhuthun a Thŷ Russell yn y Rhyl a byddant yn aros felly nes cynhelir yr Angladd Seremonïol Brenhinol yng Nghapel San Siôr, Castell Windsor ar 17 Ebrill.

Mae Llyfr Cydymdeimlo wedi'i greu ar ein gwefan fel y gall pobl adael negeseuon. Gall aelodau o'r cyhoedd wneud apwyntiad i ddefnyddio cyfrifiadur cyhoeddus mewn llyfrgell a bydd staff yn medru eu helpu i fynd at y ffurflen gydymdeimlo ar-lein a gadael neges os dymunant. Roedd trefniadau wedi'u gwneud i alluogi aelodau o'r cyhoedd i adael blodau, ond yn anffodus ni fu modd gwneud hynny oherwydd y pandemig.

Cafwyd munud o dawelwch i ddangos parch.

4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor Llawn a gynhaliwyd ar 23 Chwefror 2021.

Materion yn Codi –

Tudalen 8, Eitem 4 – cadarnhaodd y Cynghorydd Peter Scott ei fod wedi gweld copi drafft o'r adroddiad llifogydd gan Gyfoeth Naturiol Cymru. Roedd wedi holi pryd y byddai ar gael i'r holl Gynghorwyr ac aelodau o'r cyhoedd.

Soniodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: yr Economi a'r Parth Cyhoeddus iddo gael cyfarfod yn ddiweddar â'r Pennaeth Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol, Tony Ward, a'r Peiriannydd Perygl Llifogydd, Wayne Hope, i drafod adroddiad drafft Cyfoeth Naturiol Cymru. Roedd yr adroddiad terfynol bron yn barod ac fe gâi hwnnw ei gyhoeddi ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru. Wedi hynny fe'i rhennid ag Aelodau Ardal Elwy a'r Cynghorwyr Tref perthnasol. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol hefyd y cyflwynid adroddiad Adran 19 ynglŷn â'r llifogydd yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu Cymunedau oedd i'w gynnal ar 1 Gorffennaf 2021.

Tudalen 10, Eitem 6, Strategaeth Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol – dywedodd y Cynghorydd Brian Jones y bu mewn cyfarfod yn ddiweddar â Rheolwr y Rhaglen Newid Hinsawdd, Helen Vaughan-Evans, a'r Cynghorydd Graham Timms. Cytunasid y byddai'r Grŵp Newid Hinsawdd yn cynnal tri o gyfarfodydd yn y deuddeg mis dilynol er mwyn asesu'r cynnydd.

Cafwyd cynnig gan y Cynghorydd Alan James, wedi'i eilio gan y Cynghorydd Peter Scott, i dderbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Chwefror 2021.

Cynhaliwyd pleidlais a chytunwyd yn unfrydol bod y cofnodion yn gywir.

PENDERFYNWYD *derbyn cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 23 Chwefror 2021 a'u cadarnhau fel cofnod cywir.*

5 TREFNIADAU AR GYFER ETHOL CADEIRYDD AC IS-GADEIRYDD

Cyflwynodd Pennaeth y Gyfraith, Adnoddau Dynol a Gwasanaethau Democrataidd yr adroddiad (a oedd eisoes wedi'i ddosbarthu) yn ceisio cytundeb ynghylch darpar

Gadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor Sir ar gyfer blwyddyn y Cyngor 2021/2022 i'w hethol yn ffurfiol yng nghyfarfod blynyddol y Cyngor ar 18 Mai 2021.

Cadarnhawyd y byddai'r Is-gadeirydd presennol, y Cynghorydd Alan James, yn dod yn Gadeirydd ar gyfer blwyddyn y Cyngor 2021/2022 a byddai'r broses ffurfiol o ethol y Cadeirydd yn digwydd yn y Cyngor Blynyddol oedd i'w gynnal ar 18 Mai 2021.

Ethol Is-gadeirydd:

Cafwyd cynnig gan y Cynghorydd Martyn Holland, wedi'i eilio gan y Cynghorydd Rhys Thomas, i'r Cynghorydd Christine Marston fod yn Is-gadeirydd ar gyfer blwyddyn y cyngor 2021/2022.

Cynigiodd y Cynghorydd Joan Butterfield y Cynghorydd Pete Prendergast fel Is-gadeirydd ar gyfer blwyddyn y Cyngor 2021/2022, ac eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Bob Murray.

Esboniodd Pennaeth y Gyfraith, Adnoddau Dynol a Gwasanaethau Democrataidd y cynhelid pleidlais ar y cynigion dros *Zoom* ac y byddai'r canlyniadau'n ymddangos ar y sgriniau perthnasol fel canrannau. Yn anffodus nid oedd modd i neb ymatal o'r bleidlais yn ffurfiol, ac felly pe dymunai unrhyw aelod ymatal dylai wneud hynny drwy beidio â phleidleisio o gwbl.

Cynhaliwyd y bleidlais a'r canlyniad oedd
79% o'r pleidleisiau dros y Cynghorydd Marston
21% o'r pleidleisiau dros y Cynghorydd Pete Prendergast.

Enwebwyd y Cynghorydd Christine Marston yn ddarpar Is-gadeirydd ar gyfer blwyddyn y Cyngor 2021/2022.

Diolchodd y Cynghorydd Marston i'r Aelodau am eu cefnogaeth a chafodd ei llongyfarch ar ei henwebiad.

PENDERFYNWYD *Cynnig y Cynghorydd Alan James yn Gadeirydd a'r Cynghorydd Christine Marston yn Is-gadeirydd y Cyngor Sir am y flwyddyn 2021/2022 i'w hethol yn ffurfiol yng nghyfarfod blynyddol y Cyngor ar 18 Mai 2021.*

6 NEWIDIADAU YN Y CYFANSODDIAD

Cyflwynodd Pennaeth y Gyfraith, Adnoddau Dynol a Gwasanaethau Democrataidd yr adroddiad (a oedd eisoes wedi'i ddosbarthu) yn ceisio cydsyniad y Cyngor i ddiwygio'r darpariaethau yn y Cyfansoddiad ar gyfer presenoldeb o bell yng nghyfarfodydd y Cyngor a chyfarfodydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Er mwyn galluogi awdurdodau lleol i ddal i weithredu o dan y cyfyngiadau Covid-19, cyflwynodd Llywodraeth Cymru Reoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020 a ddaeth i rym ar 22 Ebrill 2020. Roedd y Rheoliadau'n caniatáu i aelodau fod yn bresennol mewn cyfarfodydd o bell, ac yn drech na'r darpariaethau ar gyfer hynny yng nghyfansoddiadau'r awdurdodau lleol.

Rheoliadau dros dro oedd y rhain ac ni fyddent mewn grym mwyach wedi 30 Ebrill 2021.

Ar 1 Mai 2021, fodd bynnag, byddai darpariaethau Adran 47 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn dod i rym.

Roedd Adran 47 o'r Ddeddf yn mynnu bod awdurdodau lleol yn gwneud trefniadau o 1 Mai ymlaen i sicrhau bod modd cynnwys cyfranogwyr o bell wrth gynnal eu cyfarfodydd.

Roedd gan y Cyngor bwyllgor 'archwilio' statudol o'r enw'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio. Newidiodd y Ddeddf enw'r Pwyllgor hwnnw i'r 'Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'. Bu i'r Ddeddf hefyd ymestyn cylch gwaith statudol y Pwyllgor wrth adolygu ac asesu gallu'r Cyngor i ymdrin â chwynion yn effeithiol, a llunio adroddiadau ac argymhellion ar sail hynny. Fe greodd y Ddeddf swyddogaeth benodol i'r Pwyllgor yn y drefn newydd ar gyfer asesu perfformiad.

Cafwyd cynnig gan y Cynghorydd Martyn Holland, wedi'i eilio gan y Cynghorydd Hugh Evans, i dderbyn y diwygiadau yn y Cyfansoddiad fel y'u disgrifiwyd yn yr adroddiad.

Cynhaliwyd pleidlais a chytunwyd yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad.

PENDERFYNWYD:

(i) Bod y Cyngor yn diwygio'r Cyfansoddiad drwy ddisodli Adran 4.17 ar ei ffurf bresennol â'r geiriau canlynol:
"Caniateir presenoldeb o bell ym mhob cyfarfod, pwyllgor ac is-bwyllgor, ar yr amod y gall y cyfranogwyr siarad â'i gilydd a chlywed ei gilydd yn siarad. Mewn cyfarfodydd y mae'n ofynnol eu darlledu yn ôl y gyfraith, bod y cyfranogwyr yn medru siarad â'i gilydd a chlywed ei gilydd yn siarad, yn ogystal â gallu gweld ei gilydd a chael eu gweld.";

(ii) Bod y Cyngor yn newid enw'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio i'r 'Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'; a

(iii) Bod y Cyngor yn awdurdodi'r Swyddog Monitro i ddiwygio Adran 13 o'r Cyfansoddiad sydd a wnelo â chylch gorchwyl a chyfrifoldebau'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio, yn unol â'r darpariaethau yn Neddf 2021 ynghylch ymdrin â chwynion ac asesu perfformiad a ddeuai i rym ar 1 Mai 2021.

7 PENODI SWYDDOG COFRESTRU ETHOLIADOL A SWYDDOG CANLYNIADAU

Cyflwynodd Pennaeth y Gyfraith, Adnoddau Dynol a Gwasanaethau Democrataidd yr adroddiad (a oedd eisoes wedi'i ddosbarthu) yn gofyn i'r Cyngor benodi Swyddog Cofrestru Etholiadol a Swyddog Canlyniadau, fel y cyflawnid y ddwy swyddogaeth hynny nes penodi Prif Weithredwr newydd.

Hysbysodd Pennaeth y Gyfraith, Adnoddau Dynol a Gwasanaethau Democrataidd yr aelodau ei bod yn ofynnol o dan Adran 8 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 i'r

Cyngor benodi un o'i swyddogion yn Swyddog Cofrestru Etholiadol ar gyfer ei ardal. Yn ogystal â hynny roedd yn ofynnol o dan Adran 35 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 i'r Cyngor benodi un o'i swyddogion yn Swyddog Canlyniadau ar gyfer Etholiadau Llywodraeth Leol yn ei ardal.

Cafwyd cynnig gan y Cynghorydd Barry Mellor, wedi'i eilio gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, i benodi'r Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau, Nicola Stubbins, yn Swyddog Cofrestru Etholiadol a Swyddog Canlyniadau.

Cynhaliwyd pleidlais ac roedd y mwyafrif o aelodau o blaid y cynnig, ac un aelod yn erbyn.

PENDERFYNWYD:

(i) Penodi Nicola Stubbins yn Swyddog Cofrestru Etholiadol ar gyfer Sir Ddinbych nes penodi Prif Weithredwr newydd.
(ii) Penodi Nicola Stubbins yn Swyddog Canlyniadau ar gyfer Etholiadau Llywodraeth Leol yn Sir Ddinbych nes penodi Prif Weithredwr newydd.

8 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CYNGOR SIR

Cyflwynodd Pennaeth y Gyfraith, Adnoddau Dynol a Gwasanaethau Democrataidd Raglen Gwaith i'r Dyfodol y Cyngor, ynghyd â Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol ar gyfer Sesiynau Briffio'r Cyngor (a ddosbarthwyd ymlaen llaw).

18 Mai 2021 – Cyfarfod Blynyddol y Cyngor:
(i) Adroddiad Blynyddol Craffu
(ii) Adroddiad Blynyddol – Cydbwysedd Gwleidyddol
(iii) Adroddiad Blynyddol Safonau
(iv) Adroddiad Polisi Cyflogau.

Gellid gohirio'r adroddiad ynghylch Cyflogau Byw Go Iawn nes ar ôl y cyfarfod ar 18 Mai, yn sgil gohirio'r trafodaethau tra cynhelir yr etholiad, ond byddai'n dal yn eitem y gellid ei thrafod mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

Cyflwynid yr adroddiad ynglŷn â'r Ymchwiliad i'r Llifogydd i'r Cyngor Llawn unwaith y cesglid yr holl wybodaeth.

Cafwyd cynnig gan y Cynghorydd Alan James, wedi'i eilio gan y Cynghorydd Cheryl Williams, i dderbyn y rhaglenni gwaith.

Cynhaliwyd pleidlais a chytunwyd yn unfrydol i dderbyn y rhaglenni gwaith.

***PENDERFYNWYD**, yn amodol ar yr uchod, y dylid cymeradwyo a nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cyngor a Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol Sesiynau Briffio'r Cyngor.*

Daeth y cyfarfod i ben am 10.53 a.m.